Atodiad 2

**Cynigion yr Ymgynghoriad ar gyfer Datblygu Cynlluniau Ardal**

Bydd pob Pencampwr Cynllun yn teilwra’r trefniadau ymgynghori i fodloni anghenion ac amgylchiadau lleol. Fodd bynnag bydd yr ymgynghoriad i ddatblygu Cynlluniau Ardal yn digwydd yn y fframwaith canlynol:

**Cam 1:** Ymgynghorir ag Aelodau Lleol ar faterion a blaenoriaethau ar gyfer cymunedau unigol yn eu Wardiau

**Cam 2:** Cynhelir trafodaethau rhagarweiniol wedi’u targedu gyda rhanddeiliaid lleol allweddol i archwilio materion a blaenoriaethau cymunedol potensial. Bydd y rhanddeiliaid yn amrywio yn unol â’u hamgylchiadau lleol, ond dylent gynnwys y sectorau canlynol:

- Cyngor Cymuned
- Ysgol Leol
- Busnesau/Grwpiau busnes lleol allweddol
- Unrhyw gorff/gyrff cymunedol neu wirfoddol lleol arwyddocaol

Bydd y trafodaethau’n cynnwys materion a blaenoriaethau sydd eisoes wedi’u cynnwys yn y Cynlluniau Tref a byddant yn canolbwyntio ar a) sut mae cymunedau’n sicrhau eu bod yn elwa ar ddatblygiadau’r Dref, a b) anghenion a blaenoriaethau mewn cymunedau. Pwrpas y trafodaethau rhagarweiniol hyn yw cymryd safbwyntiau i lywio’r papurau ymgynghori yn hytrach na chytuno’n bendant ar beth ddylai fod mewn Cynllun.

**Cam 3:** mae’r materion a ddynodwyd yng Nghamau 1 a 2 uchod yn cael eu coladu’n adroddiad materion i bobl leol ymgynghori arno. Bydd ymgynghoriad dan arweiniad y Cyngor Cymuned a bydd yn agored i unrhyw grŵp trigolion neu randdeiliaid lleol.

Bydd Cynghorau Cymuned yn cael eu hannog i sicrhau bod cyfarfodydd ymgynghori’n cael cyhoeddusrwydd da yn y gymuned leol. Bydd y Cyngor yn gwahodd sylwadau trwy ei wefan hefyd, gan adrodd nôl ar unrhyw sylwadau a ddaeth i law’r Cyngor Cymuned a Phencampwr y Cynllun.

**Cam 4:** Bydd adborth yr ymgyngoriadau cymunedol unigol yn cael ei goladu a’i gyflwyno i’r GAA perthnasol er mwyn ei ystyried a’i adolygu. O hyn, bydd Pencampwr y Cynllun yn goruchwylio’r gwaith o lunio’r rhannau newydd ar gyfer y Cynllun Tref ac Ardal drafft a fydd yn cael ei gyfeirio’n ffurfiol i’r Cabinet ei gymeradwyo ar ôl iddo gael ei gytuno gan y GAA.

Bydd Grŵp Cydlynu’r Cynllun Tref/Ardal yn adolygu’r holl gynlluniau cyn iddynt gael eu cyfeirio at y Cabinet.

Bydd aelodau sy’n cynrychioli’r holl gymunedau sy’n cael eu cynnwys gan Gynllun Ardal yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfod GAA y bydd y Cynllun yn cael ei ystyried ynddo boed a ydynt yn aelod o’r GAA hwnnw ai peidio. Bydd

DRAFT

yr Aelod Arweiniol dros Dwristiaeth, Hamdden ac Ieuenctid, yn ei rôl fel Pencampwr Gwledig yn sicrhau bod pob cymuned wledig yn cael eu hymgorffori'n briodol yn y Cynlluniau Ardal.

**Cam 5:** Bydd cynlluniau a gytunwyd gan GAAau unigol ac a adolygwyd gan Grŵp Cydlynu'r Cynlluniau Tref/Ardal yn cael eu cyfeirio at y Cabinet i'w cymeradwyo'n ffurfiol, gan gynnwys dyrannu cyllid ar gyfer unrhyw flaenoriaethau a ddynodwyd ym Mlwyddyn 1.

Mae Cynlluniau Ardal yn debygol o ddod ymlaen ar wahanol gyflymderau yn dibynnu ar gymhlethdod ymgyngoriadau lleol. Fodd bynnag, argymhellir dyddiad targed o fis Medi 2013 ar gyfer cytuno pob Cynllun Ardal.

**Rhanddeiliaid Allweddol ar gyfer Trafodaethau Rhagarweiniol**

<u>Cynllun Ardal Prestatyn</u>

*i'w ychwanegu*

<u>Cynllun Ardal Rhuddlan</u>

*i'w ychwanegu*

<u>Cynllun Ardal  Llanelwy</u>

*i'w ychwanegu*

<u>Cynllun Ardal Dinbych</u>

*i'w ychwanegu*

<u>Cynllun Ardal Rhuthun</u>

*i'w ychwanegu*

<u>Cynllun Ardal Llangollen</u>

*i'w ychwanegu*

<u>Cynllun Ardal Corwen</u>

*i'w ychwanegu*

DRAFT